


Y R E G L W Y S
Y N G N G H Y M R U




T H E C H U R C H
I N W A L E S

**Litwrgi ar gyfer Bendithio Priodas Sifil
dau berson o'r un rhyw neu
Partneriaeth Sifil Dau Berson o'r un rhyw**

~

**Liturgy for the Blessing of
a Same-sex
Civil Marriage or Civil Partnership**

**Hydref ~ October
2021**



Y bydd gan Esgobion Esgobaethol y grym i awdurdodi at ddefnydd arbrofol yn yr eglwysi yn eu hesgobaeth y drefn a nodir yn yr Atodiad ar gyfer gwasanaeth Bendithio yn dilyn Partneriaeth Sifil neu Briodas rhwng Dau Berson o'r un rhyw am gyfnod o bum mlynedd o 1 Hydref 2021.

~

A Diocesan Bishop shall have power to authorise for experimental use in the churches within their diocese the form set out in the following text for a service of Blessing following a Civil Marriage or Civil Partnership between two people of the same sex for a period of five years from 1 October 2021.

**Litwrgi ar gyfer Bendithio Priodas Sifil
dau berson o'r un rhyw neu
Partneriaeth Sifil Dau Berson o'r un rhyw**

~

**Liturgy for the Blessing of
a Same-sex
Civil Marriage or Civil Partnership**

Gall y pâr ddod i mewn i'r eglwys gyda'i gilydd yn arwydd o'r ymrwymiad a wnaethant eisoes, y naill i'r llall, yn eu Priodas Sifil / Partneriaeth Sifil.

Gellir chwarae cerddoriaeth neu ganu emyn.

Y Croeso

Yn Enw'r Tad,
a'r Mab,
a'r Ysbryd Glân. **Amen.**

Estynnir geiriau o groeso i'r pâr, eu teuluoedd, eu ffrindiau a'u cefnogwyr.

Cyflwyniad

Naill ai:

Garedigion yng Nghrist, yr ydym wedi ymgynnull ym mhresenoldeb Duw i ddathlu uniad *E. a(c) E.* ac i ddeisyf ei fendith ar eu dyfodol gyda'i gilydd.

Dywedodd Iesu, 'Câr yr Arglwydd dy Dduw â'th holl galon ac â'th holl enaid ac â'th holl feddwl. Dyma'r gorchymyn cyntaf a phwysicaf.'

Mathew 22. 37-38

Mae dilyn y ffordd hon lle gwneir ymrwymiad i Dduw, yn golygu mai Iesu yw'r goleuni sy'n ein tywys, ac mai ato ef yr awn yn gyson am gynhaliaeth, cadarnhad a chariad diderfyn. O'n rhan ni, mae ymrwymo iddo ef yn golygu dwyn i'r amlwg ffrwyth yr Ysbryd; yn golygu byw bywyd o hunan-aberth cariadus; yn golygu byw bywyd Crist.

Duw yw Crëwr pob peth, er hynny y mae'n nes na'r anadl sydd ynom. Cariad yw ffordd Duw, ac y mae pawb sy'n ymwybod â chariad yn adnabod Duw. Gan hynny, boed i ni weddio ar Dduw.

Neu:

Garedigion yng Nghrist, yr ydym wedi ymgynnull yma heddiw ym mhresenoldeb Duw i ddathlu cariad *E. a(c) E.* at ei gilydd, i'w cefnogi ar daith bywyd ac i weddio am fendith Duw ar eu *Priodas/Partneriaeth Sifil* wrth iddynt, gyda'i gilydd, fyw bywyd o gariad ac ymrwymiad ffyddlon.

Mae'r Ysgrythur Lân yn ein hatgoffa inni gael ein creu i fyw ein bywyd mewn perthynas â'n gilydd, ac mewn perthynas â'r Duw a'n galwodd i fod ac a'n creodd ar ei ddelw ef ei hun. Pan fydd dau berson yn ymrwymo, y naill i'r llall, mewn cyfamod gydol-oes o gariad a ffyddlondeb datgelir inni, drwy eu perthynas hwy, fwriadau cariadlon Duw a natur ddiamedod y cariad dwyfol tuag at holl deulu dynoliaeth.

The couple may enter the church together as a sign of their commitment already made in their Civil Marriage or Civil Partnership.

Music may be played or a hymn sung.

The Welcome

In the name of the Father,
and of the Son,
and of the Holy Spirit. **Amen.**

Words of welcome are extended to the couple, their families, friends, and supporters.

Introduction

Either:

Beloved in Christ, we come together in the presence of God to celebrate the union of *N.* and *N.* and to ask his blessing on their future together.

Jesus said, 'You shall love the Lord your God with all your heart and with all your soul and with all your mind. This is the great and first commandment.'

Matthew 22. 37-38

Following this way of commitment to God means that Jesus is our guiding light, to whom we constantly turn for support, affirmation and boundless love. On our part, being committed to him means bringing forth the fruit of the Spirit; it means living a life of loving self- sacrifice; it means to live the life of Christ.

God is the Creator of all, yet is closer to us than our very breath. Love is God's way, and all who know love, know God. Let us therefore turn to God in prayer.

Or:

Beloved in Christ, we are gathered here today in the presence of God to celebrate *N.* and *N.*'s love for each other, to support them in life's journey and to pray for God's blessing on their *Marriage / Civil Partnership* as together they live a life of faithful love and commitment.

We are reminded in Holy Scripture that human beings are created to live lives in relationship with one another and in relationship with the God who called us into being and created us in God's own image. When two people commit themselves to one another in a lifelong covenant of love and faithfulness their relationship reveals to us the loving purposes of God and the unconditional nature of divine love for the whole human family.

Y weddi agoriadol

Naill ai:

Hollalluog Dduw,
rhoddwr pob peth da
a ffynhonnell pob perthynas gariadus,
erfyniwn ar i'th Ysbryd Glân fod gyda ni
ar y dydd hwn o lawenydd mawr.
Diolchwn i ti am alw *E. a(c) E.* i'th wasanaethu.
Cynorthwya hwy i ymateb yn siriol i'th alwad ac i wneud dy ewyllys.
Cymhwysa eu bywydau er mwyn iddynt fod yn barod pan ddaw dy archiad,
fel y gallont dy wasanaethu'n ffyddlon
ac amlygu dy gariad i'r byd
drwy'r ymrwymiad gydol-oes
a wnânt gerbron dy Eglwys sydd wedi ymgynnull yma heddiw.
Offrymwn y weddi hon a'n holl weddiau
drwy Grist, ein Harglwydd byw a chariadlon. **Amen.**

Neu:

Sanctaidd, fendigaid Drindod,
yr wyt yn datguddio dy hun i ni yn Dad, Mab ac Ysbryd Glân,
sy'n fyw ac sy'n teyrnasu mewn undod perffaith o gariad;
boed i'r cariad sy'n llifo'n wastadol yn dy galon
orlifo i lanw bywydau *E. a(c) E.*
Boed iddo eu rhwymo hwy ynghyd mewn cyfamod perffaith o gariad,
fel y bydd iddynt gynyddu mewn cariad ac ymrwymiad
i'w gilydd ac i ti,
oherwydd ti yw'r Un Duw sy'n fyw ac sy'n teyrnasu
yn oes oesoedd. **Amen.**

Gellir camu emyn.

Opening prayer

Either:

Almighty God,
from whom all good things come
and in whom all loving relationships have their beginning,
we ask that your Holy Spirit be with us
on this day of great rejoicing.
We give you thanks for calling *N.* and *N.* to be your servants.
Help them to respond gladly to your call and obey your will.
Make them ready for every demand you make upon their lives,
that they may serve you faithfully
and show forth your love to the world
through the life-long commitment
they make before your Church gathered here this day.
We make this, and all our prayers,
through Christ, our living, loving Lord. **Amen.**

Or:

Holy and blessed Trinity,
you reveal yourself to us as Father, Son and Holy Spirit,
living and reigning in a perfect unity of love;
may the love which ever flows within your heart
overflow into the lives of *N.* and *N.*
May it bind them together in a perfect covenant of love,
that they may grow in love and commitment
to one another and to you,
for you live and reign one God,
world without end. **Amen.**

A hymn may be sung.

Darlleniadau

Bydd un neu fwy o ddarlleniadau Ysgrythurol yn dilyn fan hyn.

Mae'r rhestr isod yn cynnwys enghreifftiau o ddarlleniadau addas. Rhaid i un darlleniad ddod o'r Efengylau.

Caniad Solomon 2. 10-13; 8. 6, 7

Eseia 43. 1-3a, 4-5a

Ruth 1. 16-18

Salm 67 neu 121

Mathew 5. 1-10

Ioan 2. 1-11

Ioan 15. 9-17

Rhufeiniaid 12. 1, 2, 9-13

1 Corinthiaid 13

Philipiaid 4. 4-9

Colosiaid 3. 12-17

Effesiaid 3. 14-diwedd

1 Ioan 4. 7-12

Ar ôl y darlleniad(au) Ysgrythurol dywedir ...

Naill ai:

Dyma air yr Arglwydd.

Diolch a fo i Dduw.

Neu:

Gwrandewch ar yr hyn y mae'r Ysbryd yn ei ddweud wrth yr Eglwys.

Diolch a fo i Dduw.

Yn ôl fel y gwelo'r gweinidog yn dda, gellir cynnwys darlleniad addas sydd heb fod o'r Beibl.

Y Bregeth

Gellir pregethu fan hyn.

Readings

One or more readings from Scripture follow.

The following list includes some examples of appropriate readings. One reading must be from one of the Gospels.

Song of Solomon 2. 10-13; 8. 6, 7
Isaiah 43. 1-3a, 4-5a
Ruth 1. 16-18
Psalms 67 or 121
Matthew 5. 1-10
John 2. 1-11
John 15. 9-17
Romans 12. 1, 2, 9-13
1 Corinthians 13
Philippians 4. 4-9
Colossians 3. 12-17
Ephesians 3.14-end
1 John 4. 7-12

The Scriptural reading(s) may end with ...

Either:

This is the Word of the Lord.
Thanks be to God.

Or:

Hear what the Spirit is saying to the Church.
Thanks be to God.

At the discretion of the minister, an appropriate non-biblical reading may be included.

The Address

An address may be given at this point.

Yna saif y pâr o flaen y gweinidog a'r gynulleidfa i wneud eu haddunedau gerbron Duw a'r Eglwys.

Gyfeillion annwyl, gadewch i ni garu ein gilydd, oherwydd o Dduw y mae cariad.
Amen.

1 Ioan 4. 7b

Naill ai:

Ailadrodd yr Addunedau

Yn ôl fel y gwelo'r gweinidog yn dda, gall y pâr ailadrodd yr addunedau a wnaed yn seremoni eu Priodas / Partneriaeth Sifil.

Mae E. a(c) E. yn gyfreithlon briod / wedi cyfamodi eu Partneriaeth Sifil ac yn awr, gerbron Duw a'r Eglwys, maent yn ailadrodd eu haddunedau a wnaethant ar (y dyddiad).

Mae'r pâr yn wynebu ei gilydd ac yn cydio dwylo cyn ailadrodd eu haddunedau.

Neu:

Gweithred yr Ymrwymiad

E. a(c) E. yr ydych eisoes wedi ymrwymo, y naill i'r llall, yn eich *Priodas / Partneriaeth Sifil* pan wnaethoch [o flaen eich teulu a'ch ffrindiau] addunedau difrifddwys i sefydlu cyfamod o gariad a ffyddlondeb rhyngoch am weddill eich dyddiau gyda'ch gilydd.

Yr wyf yn awr yn eich gwahodd i adnewyddu eich ymrwymiad i'ch gilydd gerbron Duw a'r Eglwys.

E. a(c) E. a ydych yn dymuno datgan o'r newydd eich cariad a'ch ymrwymiad i'ch gilydd [o flaen eich teulu a'ch ffrindiau ac] ym mhresenoldeb Duw?

Y Pâr: **Ydym.**

The couple then stand before the minister and the congregation to make their promises before God and the Church.

Beloved, let us love one another, because love is from God. Amen.

1 John 4. 7b

Either:

The Repeating of Promises

At the discretion of the minister, the couple may repeat the promises made at their Marriage / Civil Partnership ceremony.

N. and N. are legally married / have contracted their Civil Partnership and now before God and the Church repeat their promises made on (insert date here).

The couple face each other and join hands and repeat their promises.

Or:

Act of Commitment

*N. and N. you have already committed yourselves to each other at your *Wedding / Civil Partnership* when, [in the presence of your family and friends] you made solemn promises to establish a covenant of love and faithfulness between you for the rest of your life together.*

I now invite you, to renew your commitment to one another before God and the Church.

N. and N. is it your desire to proclaim afresh your love and commitment to one another [before your family and friends and] in the presence of God?

*Couple: **It is.***

Bydd y naill a'r llall yn ymateb yn ei dro i'r gofynion isod.

E., a wyt ti'n rhoi dy hunan mewn cariad, ffyddlondeb ac ymrwymiad i E. mewn cyfamod o gariad am weddill dy ddyddiau?

Ydwyf.

E., a wyt ti'n rhoi dy hunan mewn cariad, ffyddlondeb ac ymrwymiad i E. mewn cyfamod o gariad am weddill dy ddyddiau?

Ydwyf.

Deulu a ffrindiau / Frodyr a chwiorydd a wnewch chi bopeth yn eich gallu i garu, cefnogi a gofalu am E. a(c) E. wrth iddynt roi ar waith yn eu bywyd eu cyfamod o gariad at ei gilydd?

Gwnawn.

Gall y pâr fynegi eu hymateb i gariad Duw yng ngeiriau Salm 16 gan arfer un o'r ffurfiau isod, neu ffurf arall, yn ôl fel y gwelo'r gweinidog yn dda.

Salm 16

(Trosiad o 'Salm 16' Redux [Carla Grosch-Miller])

Gartref dilys, pa fodd y medrwn ddewis arall?
Llawnder i'm gwacter,
dŵr i'm syched,
cefnfor i'm diferyn glaw, canolbwynt llonydd
a'm tyn i mewn
ac a wŷr fy enw.

Wastatir eang, ble arall y dymunwn grwydro?
Golygfeydd rhyfeddol,
gorwelion yn ymledu,
gras anfeidrol,
lle i anadlu
a'r siawns a gymer cariad wrth roi ei hunan.

Troetffordd gywir, pwy arall y gallwn ddilyn?
Llwybr treuliedig ac amyneddgar,
yn ffinio rhyddid,
yn meithrin doethineb,
yn cyflawni llawenydd.
Nid yw baglu
yn faglu i Ti.
Yr wyt yn fy nghodi'n dyner a'm gwahodd ymlaen.
Gan hynny mae fy nghalon yn llawen a'm henaid yn gorfoleddu;
fy nghorff hefyd sy'n gorffwys yn ddiogel.

Each person responds to the following questions in turn.

N., do you give yourself in love, faithfulness and commitment to *N.* in a covenant of love for the rest of your life?

I do.

N., do you give yourself in love, faithfulness and commitment to *N.* in a covenant of love for the rest of your life?

I do.

Family and friends / Brothers and sisters will you do all that you can to love, support and care for *N.* and *N.* as they live out their covenant of love for one another?

We will.

The couple may express their response to God's love in the words of Psalm 16, using either of the versions below, or another at the discretion of the minister.

Psalm 16

(Psalms Redux [Carla Grosch-Miller])

True Home, how could I choose another?
Fullness to my emptiness,
water to my thirst,
ocean to my raindrop, still centre point
that draws me in
and knows my name.

Wide Plain, where else would I want to roam?
Astonishing vistas,
expanding horizons,
infinite grace,
room to breathe
and the risk of love in the gift of self.

Trustworthy Way, who else could I follow?
Path well-worn and patient,
bounding freedom,
nurturing wisdom,
fulfilling joy.
Even stumbling
is not stumbling to You.
You lift me tenderly and invite me on.
Therefore my heart is glad, and my soul rejoices; my body also rests secure.

Salm 16

(Y Beibl Cymraeg Newydd [Argraffiad Diwygiedig])

Cadw fi, O Dduw:
oherwydd llochesaf ynot ti.
Dywedais wrth yr Arglwydd:
“Ti yw f’arglwydd, nid oes imi ddaioni ond ynot ti.”

Ac am y duwiau sanctaidd sydd yn y wlad:
melltith ar bob un sy’n ymhyfrydu ynddynt.
Amlhau gofidiau y mae’r un sy’n blyso duwiau eraill:
ni chynigias fi waed iddynt yn ddiodoffrwm,
na chymryd eu henwau ar fy ngwefusau.
Ti, Arglwydd, yw fy nghyfran a’ m cwpan:
ti sy’n diogelu fy rhan;
syrthiodd y llinynnau i mi mewn manau dymunol:
ac y mae gennyf etifeddiaeth ragorol.

Bendithiaf yr Arglwydd a roddodd gyngor i mi:
yn y nos y mae fy meddyliau’n fy hyfforddi.
Gosodais yr Arglwydd o’ m blaen yn wastad:
am ei fod ar fy neheulaw, ni’ m symudir.
Am hynny, llawenha fy nghalon a gorfoledda f’ysbryd:
a chaiff fy nghnawd fyw’n ddiogel;
oherwydd ni fyddi’n gadael fy enaid i Sheol:
ac ni chaiff yr un teyrngar i ti weld Pwll Distryw.
Dangosi i mi lwybr bywyd;
yn dy bresenoldeb di y mae digonedd o lawenydd:
ac yn dy ddeheulaw fwyniant bythol.

Psalm 16

(NRSV)

Protect me, O God, for in you I take refuge.
I say to the Lord, 'You are my Lord;
I have no good apart from you.'
As for the holy ones in the land, they are the noble,
in whom is all my delight.

Those who choose another god multiply their sorrows;
their drink-offerings of blood I will not pour out
or take their names upon my lips.
The Lord is my chosen portion and my cup;
you hold my lot.
The boundary lines have fallen for me in pleasant places;
I have a goodly heritage.

I bless the Lord who gives me counsel;
in the night also my heart instructs me.
I keep the Lord always before me;
because he is at my right hand, I shall not be moved.
Therefore my heart is glad, and my soul rejoices;
my body also rests secure.
For you do not give me up to Sheol,
or let your faithful one see the Pit.
You show me the path of life.
In your presence there is fullness of joy;
in your right hand are pleasures for evermore.

Bendithio'r Modrwyau (*dewisol*)

Gall y pâr dynnu eu modrwyau a'u gosod ar Lyfr Gweddi'r gweinidog sy'n gweinyddu, neu gallant ddal eu dwy law chwith ynghyd wrth i'r modrwyau gael eu bendithio.

Dduw graslon,
trwy nerth dy Ysbryd,
tirion fel y golomen ond yn llogi'n wenfflam gan dân dy gariad,
boed i'r modrwyau hyn fod i *E.* a(c) *E.*
yn arwydd a symbol o'th gariad diderfyn di atynt hwy
ac o'u cariad hwy at ei gilydd.
Boed i'r modrwyau hyn eu rhwymo at ei gilydd ac atat ti
mewn cyfamod perffaith o gariad a ffyddlondeb;
drwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

Gesydd y pâr y modrwyau ar ddwylo ei gilydd neu, os ydynt eisoes ar y dwylo, cymer y pâr afael ym modrwyau ei gilydd a dweud y geiriau isod. Neu gallant gynnig rhodd neu symbol i'w gilydd, neu gynnau kannwyll bob yr un ar ganhwylbren triphlyg; bryd hynny arferir y geiriau sydd isod mewn cromfachau.

Cyfnewid y Modrwyau *neu* r Rhoddion *neu* Gynnau Kannwyll Symbolaidd

neu *E.* y fodrwy / y rhodd hon yw arwydd fy nghariad atat ti,
[*E.* goleuaf y kannwyll hon yn arwydd o'm cariad atat ti]
arwyddnod fy ymrwymiad i ti,
offrwm i ti o'r cyfan yr ydwyf a'r cyfan a feddaf.
Fe'th garaf mewn iechyd a hawddfyd.
Fe'th garaf mewn gwaeledd ac adfyd.
Boed i'r arwydd hwn ein rhwymo ynghyd mewn cyfamod diderfyn o gariad
am weddill ein dyddiau gyda'n gilydd.
Gwnaf fy nghyfamod ym mhresenoldeb Duw
a'n gwnaeth ni, a'n câr ni ac a rydd inni fywyd.

Os cynheuir canhwylau goleua'r pâr drydedd kannwyll gyda'i gilydd a diffoddir y ddwy kannwyll sydd naill ochr.

The Blessing of the Rings (*optional*)

The couple may remove their rings and place them on the prayer book of the officiating minister, or they may hold their left hands together as their rings are blessed.

Gracious God,
through the power of your Spirit,
gentle as a dove yet burning with the fire of your love,
may these rings be to N. and N.
a sign and symbol of your unending love for them
and of their love for each other.
May these rings bind them to one another and to you
in a perfect covenant of love and faithfulness;
through Jesus Christ our Lord. **Amen.**

The couple then place the rings on the hand of the other or if they are already in place, hold them on each other's hand, and say the words below. Alternatively they may offer each other a gift or symbol, or may each light a candle of a triple candlestick, when the words in brackets are used.

The Exchange of Rings or Gifts or Lighting of a Symbolic Candle

N. this ring/gift is the token of my love for you,
[N. I light this candle as a token of my love for you]
the sign of my commitment to you,
the offering of all that I am and all that I have to you.
I will love you when we are well and times are good.
I will love you when we face sickness and life is hard going.
May this sign bind us together in an unending covenant of love
for the rest of our life together.
I make this covenant in the presence of God
who made us, loves us and gives us life.

If candles are lit a third candle is then lit by the couple together and the single candles either side extinguished.

Bendithio'r Pâr

Gall y gweinidog rwympo ei stôl o gylch dwylo'r pâr.

Naill ai:

Rhwymed cariad yr Arglwydd chwi ynghyd
â rhwymau na ellir eu torri. **Amen.**

Meithrined cariad yr Arglwydd chwi
wrth ichwi ddysgu caru eich gilydd fwyfwy. **Amen.**

Boed i gariad yr Arglwydd eich herio
i ddod yn bobl lwyr agored iddo ef. **Amen.**

Gwylid cariad yr Arglwydd drosoch
a'ch cadw rhag pob drwg. **Amen.**

Bendithied cariad yr Arglwydd chwi
wrth ichwi deithio ymlaen gyda'ch gilydd. **Amen.**

Boed i gariad yr Arglwydd eich dwyn chwi i fywyd tragwyddol. **Amen.**

Neu:

Wrth i'r pâr ddal dwylo:

Boed i Dduw'r Tad a'ch creodd ac a anadlodd ynoch anadl einioes,
eich bendithio.

Boed i Dduw'r Mab a ledaenodd ei freichiau mewn cariad ar y groes,
eich bendithio.

Boed i Dduw'r Ysbryd Glân sy'n ennyn yn eich calonnau fflam cariad,
eich bendithio.

Boed i'r Drindod anfeidrol a gogoneddus gyfnerthu'r cyfamod rhyngoch,
a rhwmpo eich bywydau ynghyd â chariad
fel y byddoch un yn fendith i'r llall
ac yn arwydd gweledol o fwriadau cariadlon Duw i'w blant i gyd. **Amen.**

Gellir camu emyn.

[Cyflwyno Tystysgrif]

Fan hyn gellir cyflwyno tystysgrif addas ei geiriad i'r pâr i'w hatgoffa o'r addunedau a wnaed gerbron Duw.

The Blessing of the Couple

The minister may wrap his/her stole around the couple's hands.

Either:

The love of the Lord bind you together
with cords that cannot be broken. **Amen.**

The love of the Lord nurture you
as you learn to love each other more and more. **Amen.**

The love of the Lord challenge you
to become people fully alive to him. **Amen.**

The love of the Lord watch over you
and protect you from all that is evil. **Amen.**

The love of the Lord bless you
as you journey on together. **Amen.**

The love of the Lord bring you to eternal life. **Amen.**

Or:

As the couple hold their hands together:

May God the Father, who created you and breathed life into you, bless you.
May God the Son, who extended his arms in love upon the cross, bless you.
May God the Holy Spirit, who kindles the flame of love in your hearts, bless you.
May the infinite and glorious Trinity strengthen the covenant between you,
and so bind your lives together in love, that you may be a blessing to each other
and a visible sign of God's loving purposes for all his children. **Amen.**

A hymn may be sung.

[The Presentation of a Certificate]

An appropriately worded certificate may be presented to the couple at this point to remind them both of the promises made before God.

Y Gweddïau

Naill ai:

Arglwydd cariadlon, wrth inni barhau i roi diolch am *E. a(c) E.* ac i'w cefnogi yn yr ymrwymiad a wnaethant heddiw yn dy bresenoldeb di, cynorthwya hwy i ymddiried ynot ac yn ei gilydd fel y gallont wynebu'r dyfodol â chyffro, hyder a gobaith. Boed iddynt ymwybod â'th dangnefedd a'th bresenoldeb di holl ddyddiau eu bywyd gyda'i gilydd.

Arglwydd pob bywyd a chariad,
gwrando ein gweddi.

Arglwydd cariadlon, diolchwn am bawb sy'n llawenhau heddiw gyda *E. a(c) E.* . Bu dy Fab yn rhannu ym mywyd cartref daearol, gan hynny gofynnwn y bydd i'r teuluoedd hyn dyfu'n fwyfwy parod a bodlon i'th garu a'th wasanaethu di wrth iddynt ymateb i anghenion ei gilydd. Dyro iddynt y bendithion hynny a'u galluoga i wneud eu cartrefi yn fwy teilwng o'th bresenoldeb di.

Arglwydd pob bywyd a chariad,
gwrando ein gweddi.

Arglwydd cariadlon, boed i gartref *E. a(c) E.* fod yn drigfan heddd ac undod lle tyfo eu cariad at ei gilydd, eu cariad at eu cymydog, eu cariad at fywyd ei hunan a'u cariad atat ti. Gofynnwn ar i'w cartref fod yn rhagflas o'r cartref tragwyddol lle yr aeth Crist i baratoi lle i ni.

Arglwydd pob bywyd a chariad,
gwrando ein gweddi.

Arglwydd cariadlon, gweddiwn dros y gymuned eglwysig [y perthyn *E. a(c) E.* iddi], a deisyfwn dy fendith ar bawb sy'n cymryd rhan yn ei bywyd a'i gwaith yng ngweinidogaeth y gair a'r sacrament, yn ei haddysgu a'i gofal bugeiliol, yn ei gwasanaeth i'r esgobaeth ac i bawb sy'n anghenus, ac yn ei chymdeithasu a'i chydweithio ag eglwysi eraill.

Arglwydd pob bywyd a chariad,
gwrando ein gweddi.

Arglwydd cariadlon, gweddiwn y bydd i *E. a(c) E.* wynebu eu dyfodol yn deall y daw anawsterau, na fydd yr haul yn tywynnu arnynt o hyd, y bydd poen weithiau yn ymdreiddio i hapusrwydd ac y bydd ganddynt, bob yr un, farn ac anghenion neilltuol am mai unigolion ydynt. Na foed iddynt dyfu ar wahân, ai mewn adfyd neu hawddfyd, a boed iddynt gofio'r addunedau a wnaed ganddynt heddiw. Boed iddynt gael eu cyfnerthu o wybod am eu cariad at ei gilydd a'th gariad di atynt hwy.

Arglwydd pob bywyd a chariad,
gwrando ein gweddi.

Gellir offrymu gweddïau eraill fel y bo'n gymzwys.

The Prayers

Either:

Loving Lord, as we continue to give thanks for *N.* and *N.* and support them in the commitment they have made today in your presence, help them to trust you and one another so that that they may be able to face the future with excitement, confidence and hope. May they know your peace and presence throughout their life together.

Lord of all life and love,
hear our prayer.

Loving Lord, we give thanks for all who rejoice with *N.* and *N.* today. Your Son shared the life of an earthly home and so we ask that these families become ever more ready and willing to love and serve you as they care for one another's needs. Give them those blessings which will enable them to make their homes more worthy of your presence.

Lord of all life and love,
hear our prayer.

Loving Lord, may the home of *N.* and *N.* be a place of peace and unity where their love of one another, their love of neighbour, their love of life itself and their love for you may grow. We ask that their home be a foretaste of the eternal home which Christ has gone to prepare for us.

Lord of all life and love,
hear our prayer.

Loving Lord, we pray for the church community [to which *N.* and *N.* belong], asking your blessing on all who share in her life and work in the ministry of word and sacrament, in teaching and pastoral care, in service to the diocese and to all who have any kind of need, and in fellowship and cooperation with other churches.

Lord of all life and love,
hear our prayer.

Loving Lord, we pray that *N.* and *N.* may they face their future recognising that difficulties will come, the sun will not always shine on them and pain sometimes enters happiness, and that each is an individual with a point of view and a need. May they never grow apart whether in adversity or prosperity, and may they be mindful of the promises they have made today. May they be strengthened by the knowledge of their love for each other and your love for them.

Lord of all life and love,
hear our prayer.

Other prayers may be offered as appropriate.

Neu:

Hollalluog Dduw, fe'n gwnaethost ni ar dy ddelw dy hun a'n gwaredu â'th gariad. Fe'n gelwaist i fyw mewn cyfamod o gariad gyda thi a chyda'n gilydd; bendithia *E. a(c) E.* wrth iddynt dderbyn dy fendith ar gyfamod eu cariad a seliwyd eisoes yn eu *Priodas / Partneriaeth Sifil*.

Arglwydd, clyw ni.

Arglwydd, yn rasol clyw ni.

Tywallt dy Ysbryd yn rhodd gariadlon ar *E. a(c) E* i'w nerthu a'u hadnewyddu yn eu bywyd gyda'i gilydd fel y bydd eu perthynas yn bywhau ac yn parhau tra byddont. Boed iddynt fod yn gynhafiaeth ac yn nerth i'w gilydd ar daith bywyd, yn enwedig ar adegau o ofid, anhawster a thristwch.

Arglwydd, clyw ni.

Arglwydd, yn rasol clyw ni.

Bendithia eu cartref [*gellir enwi aelodau o'r teulu fan hyn*] fel y byddo'n lle o groeso a lletygarwch i deulu, ffrindiau neu ddieithriaid. Boed iddynt rannu o'r llawnder a gawsant hwy i ddwyn hedd, gobaith a llawenydd i gymdogion anghenus ac i gysuro'r sawl sydd mewn cyfyngder.

Arglwydd, clyw ni.

Arglwydd, yn rasol clyw ni.

Tywys a gwarchod hwy drwy rodd dy air a chyfoeth dy sacramentau fel mai eu ffydd ynot ti a fydd y sail cadarn y saif eu perthynas yn ddi-sigl arni.

Arglwydd, clyw ni.

Arglwydd, yn rasol clyw ni.

Gellir offrymu gweddïau eraill fel y bo'n gymwys.

Dad trugarog,
**derbyn y gweddïau hyn,
er mwyn dy Fab,
ein Gwaredwr Iesu Grist. Amen.**

Or:

Almighty God you have made us in your image and you redeem us with your love. You have called us to live in a covenant of love with you and one another; bless *N.* and *N.* as they receive your blessing on the covenant of their love already given in their *Marriage / Civil Partnership*.

Lord, hear us.

Lord, graciously hear us.

Pour down upon *N.* and *N.* the loving gift of your Spirit to strengthen and renew them in their life together that their relationship may be life-giving and life-long. May they be a support and strength to one another in life's journey, especially in times of anxiety, difficulty or sorrow.

Lord, hear us.

Lord, graciously hear us.

Bless their home [*any family names may be inserted here as appropriate*] as a place of welcome and hospitality for family, friends, or strangers. May they share from the fullness they have received to bring peace, hope and joy to neighbours in need and to comfort any who are in distress.

Lord, hear us.

Lord, graciously hear us.

Guide and guard them through the gift of your word and the riches of your sacraments that their faith in you may be the solid foundation upon which their relationship stands firm.

Lord, hear us.

Lord, graciously hear us.

Other prayers may be offered as appropriate.

Merciful Father,
**accept these prayers,
for the sake of your Son,
our Saviour Jesus Christ. Amen.**

Gweddi'r Arglwydd

A ninnau wedi ein gwneud yn un gan yr Ysbryd, Arglwydd dysg i ni weddio.

Naill ai:

**Ein Tad, yr hwn wyt yn y nefoedd,
sancteiddier dy enw,
deled dy deyrnas,
gwneler dy ewyllys,
megis yn y nef, felly ar y ddaear hefyd.
Dyro i ni heddiw ein bara beunyddiol,
a maddau i ni ein dyledion
fel y maddeuwn ninnau i'n dyledwyr.
Ac nac arwain ni i brofedigaeth,
eithr gwared ni rhag drwg.**

**Canys eiddot ti yw'r deyrnas,
a'r gallu, a'r gogoniant,
yn oes oesoedd.
Amen.**

Neu:

**Ein Tad yn y nefoedd,
sancteiddier dy enw,
deled dy deyrnas,
gwneler dy ewyllys
ar y ddaear fel yn y nef.
Dyro inni heddiw ein bara beunyddiol,
a maddau inni ein troseddau
fel yr ŷm ni wedi maddau
i'r rhai a droseddodd yn ein herbyn;
a phaid â'n dwyn i brawf
ond gwared ni rhag yr Un drwg.**

**Oherwydd eiddot ti yw'r deyrnas
a'r gallu a'r gogoniant
yn awr ac am byth.
Amen.**

The Lord's Prayer

Being made one by the Spirit, Lord teach us to pray.

Either:

**Our Father who art in heaven,
hallowed be thy name,
thy kingdom come,
thy will be done,
on earth as it is in heaven.
Give us this day our daily bread.
And forgive us our trespasses
as we forgive those
who trespass against us.
And lead us not into temptation,
but deliver us from evil.**

**For thine is the kingdom,
the power and the glory,
for ever and ever.
Amen.**

Or:

**Our Father in heaven,
hallowed be your name,
your kingdom come,
your will be done,
on earth as in heaven.
Give us today our daily bread.
Forgive us our sins
as we forgive those
who sin against us.
Save us from the time of trial
and deliver us from evil.**

**For the kingdom, the power
and the glory are yours,
now and for ever.
Amen.**

Y Fendith

Bydded i Dduw, y mae ei Ysbryd yn llenwi ein calonnau â chariad, llawenydd a thangnefedd,
fod gyda chwi, y rhai a garoch a'r rhai sydd yn eich gweddïau,
y dydd hwn ac am byth;
a bendith Duw Hollalluog,
y Tad, y Mab a'r Ysbryd Glân,
a fo yn eich plith ac a drigo gyda chwi yn wastad. **Amen.**

Wrth i'r pâr adael yr eglwys, gellir chwarae cerddoriaeth neu gamu emyn.

The Blessing

The God whose Spirit fills our hearts with love, joy and peace,
be with you, those you love, and those you pray for,
this day and forever;
and the blessing of God almighty,
the Father, the Son and the Holy Spirit,
be with you and remain with you all. **Amen.**

As the couple leave the church, music is played or a hymn sung.

Cydnabyddiaethau

'Psalm 16' o Psalms Redux: Poems and Prayers gan Carla Grosch-Miller,
© Carla Grosch-Miller 2014. Argraffwyd gan Wasg Caergaint. Defnyddiwyd drwy ganiatâd.
rights@hymnsam.co.uk

Y Beibl Cymraeg Newydd (Argraffiad Diwygiedig) ©Y Gymdeithas Feiblaidd Frytanaid a
Thramor 2004. Defnyddiwyd drwy ganiatâd.

Hawlfraint

© Hawlfraint Corff y Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru 2021:

Mae rhannau sylweddol o ddeunydd hawlfraint yn eiddo i Gorff y Cynrychiolwyr yr Eglwys
yng Nghymru ac ni ellir eu hatgynhyrchu o fewn telerau unrhyw drwydded a ganiatawyd gan
y Copyright Licensing Agency Limited na'r Publishers Licensing Society Limited.

Cedwir pob hawl. Ni chaniateir storio unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn mewn system
adalw, na throsglwyddo dim ohono ar unrhyw ffurf neu drwy unrhyw ddull, electronig,
mecanyddol, llungopïo, cofnodi neu fel arall at ddibenion atgynhyrchu print heb ganiatâd
ysgrifenedig blaenorol yr Eglwys yng Nghymru, ac eithrio fel y caniateir yn benodol.

Atgynhyrchiad a Ganiateir

Gellir atgynhyrchu'r llyfr hwn neu unrhyw ran ohono, sef Litwrgi ar gyfer Bendithio Priodas
Sifil dau berson o'r un rhyw neu Partneriaeth Sifil dau berson o'r un rhyw, i'w ddefnyddio a
heb dalu ffi ar yr amod nad yw copïau'n cael eu gwerthu, nad oes mwy na 250 o gopïau yn
cael eu hatgynhyrchu ac y rhoddir enw'r plwyf, y gadeirlan neu'r sefydliad ar y clawr blaen
neu'r dudalen flaen gyda'r disgrifiad o'r gwasanaeth a bod y gydnabyddiaeth ganlynol wedi'i
chynnwys:

Litwrgi ar gyfer Bendithio Priodas Sifil dau berson o'r un rhyw neu Partneriaeth Sifil dau
berson o'r un rhyw.

© Hawlfraint Corff y Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru 2021.

Dylai plwyfi, cadeirlannau neu sefydliadau sy'n dymuno atgynhyrchu testun neu lyfrau
y tu allan i'r telerau uchod gyflwyno cais ysgrifenedig i'r diben hwnnw i'r Rheolwr
Cyhoeddiadau. Ym mhob achos dylid cadw copi fel cofnod o bob un o'r cyhoeddiadau:

publications@churchinwales.org.uk

Acknowledgements

'Psalm 16' from Psalms Redux: Poems and Prayers by Carla Grosch-Miller is © Carla Grosch-Miller 2014. Published by Canterbury Press. Used by permission.
rights@hymnsam.co.uk

The New Revised Standard Version (Anglicized Edition), copyright 1989, 1995 by the Division of Christian Education of the National Council of the Churches of Christ in the United States of America. Used by permission. All rights reserved.

Copyright

© Copyright the Representative Body of the Church in Wales 2021:

Substantial parts of copyright material are owned by the Representative Body of the Church in Wales and may not be reproduced within the terms of any licence granted by the Copyright Licensing Agency Limited or the Publishers Licensing Society Limited.

All rights reserved. No part of this publication may be stored in a retrieval system, or transmitted, in any form or by any means, electronic, mechanical, photocopying, recording or otherwise for the purpose of printed reproduction without prior permission in writing from the Church in Wales, except as expressly permitted.

Permitted Reproduction

This book or any part of it, entitled Liturgy for the Blessing of a Same-Sex Civil Marriage or Civil Partnership, may be reproduced for use and without payment of a fee provided that copies are not sold, no more than 250 copies are reproduced and that the name of the parish, cathedral or institution is shown on the front cover or front page with the description of the service and that the following acknowledgement is included:

Liturgy for the Blessing of a Same-Sex Civil Marriage or Civil Partnership.

© Copyright the Representative Body of the Church in Wales 2021.

Parishes, cathedrals or institutions wishing to reproduce text or books outside of the terms above should apply in writing to do so from the Publications Manager. In all cases a copy should be kept as a record of each of the publications.:

publications@churcheinwales.org.uk

